Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithlen y Gogledd-orllewin: cestyll a muriau trefi Edward I

O 1276 ymlaen llwyddodd Edward I, brenin Lloegr, i sefydlu cyfres rymus o gestyll a threfi yn y Gogledd fel rhan o'i ymgyrch filwrol i drechu Tywysogion Cymru. Mae'r cestyll a godwyd gan Edward I yn cynnwys Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech, sydd gyda'i gilydd wedi sicrhau statws Safle Treftadaeth Byd.

Mae'r cestyll hyn yn amlygu'r medrau gorau o ran codi cestyll a oedd yng ngorllewin Ewrop ar y pryd. Mewn cyfnod byr y cawson nhw eu codi ar raddfa anhygoel o uchelgeisiol. Gyda'u llenfuriau enfawr a'u tyrau a'u porthdai pwerus, mae i'r cylch o gestyll bresenoldeb grymus yn nhirlun Eryri ac mae'n symbol o ymdrech aruthrol Edward I i drechu'r Gogledd ac ymladd yn erbyn gwrthryfel y Cymry.

Mae gan bob castell ei stori ei hun....

1

Castell Caernarfon a Muriau'r Dref

Wedi'r holl flynyddoedd, nid yw cryfder anhygoel castell Caernarfon wedi pylu. Dyma gawres o gaer ac mae cadernid anhygoel **Castell Caernarfon** yn bresenoldeb bygythiol. Creodd y Brenin Edward I un o'r cestyll mwyaf trawiadol yng Nghymru a'r tu hwnt, a bu'r castell a muriau'r dref yn fodd i gadw rhai cymunedau i mewn ac eraill allan.

2



Castell Conwy a Muriau'r Dref

Cafodd **Castell Conwy** ei godi gan y Meistr James o St George ac mae ymhlith y ceyrydd canoloesol gorau sydd wedi goroesi ym Mhrydain. Mae'n anodd credu mai pedwar tymor adeiladu yn unig a gymerodd i'w godi, rhwng 1283 a 1287. Dringwch y tyrau a'r tyredau a dysgwch sut y cipiodd y Cymry y castell oddi ar y gwladychwyr o Loegr yn y 15fed ganrif. I weld y darlun llawn, ewch i'r bylchfuriau lle ceir golygfeydd gwych dros y mynyddoedd a'r môr.

3

Castell Harlech

Mae bylchfuriau **Castell Harlech** yn codi o wyneb clogwyn serth. Cafodd model 'muriau o fewn muriau' llwyddiannus Edward ei godi'n gyflym iawn rhwng 1283 a 1295 gan fyddin o bron i fil o grefftwyr a llafurwyr medrus. Yn ôl y sôn, mae 'Gwŷr Harlech', anthem answyddogol y genedl, yn disgrifio'r gwarchae hiraf yn hanes Prydain (1461-1468) a welwyd yma yn ystod Rhyfeloedd y Rhos.

Teithlen y Gogledd-orllewin: cestyll a muriau trefi Edward I

Castell Biwmares

Mae **Castell Biwmares** yn cael ei ddisgrifio fel y castell perffeithiaf ym Mhrydain o ran ei dechneg, a dyma'r campwaith olaf ym mhrosiect adeiladu anferth Edward I yn y Gogledd. O ran datblygiadau technolegol, roedd Castell Biwmares yn y 13eg ganrif yn cyfateb i long ofod yn glanio'n ddiseremoni ar Ynys Môn heddiw. Yn y pen draw, bu gwaith adeiladu anferth Edward I yn rhy ddrud a chafodd castell Biwmares mo'i orffen, er bod y dref newydd wedi parhau i ffynnu.

Mae'r henebion ysblennydd hyn yn fan cychwyn i astudio hanes Cymru a hynny yng nghadarnleoedd y Tywysogion. Mae'r gwaith dehongli ar y safleoedd yn helpu'r ymwelwyr i ystyried y storïau gwefreiddiol, o bobl i bŵer milwrol a chrefyddol, yn ogystal â bywyd y cartref a'r bywyd ysbrydol.

Mae gan Cadw chwe safle arall yn y rhwydwaith o gestyll a godwyd gan Edward I neu o dan ddylanwad ei gyfundrefn, ei ragflaenwyr a'i ddeiliaid yn y Gogledd: **Castell y Fflint**, **Castell Dinbych a Muriau'r Dref, Rhuddlan**, **Cricieth**, **Dolbadarn** a **Dolwyddelan.**

I wybod am y storïau a'r bobl y tu ôl i'n 128 o safleoedd hanesyddol, ewch i cadw.cymru.gov.uk.
Hoffwch Cadw ar Facebook a dilynwch @cadwcymru ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf.

Rhyw 45 munud ar y mwyaf yw amser y siwrnai rhwng pob safle.